# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 04-09 (p1) : 12 Chwefror 2009**

## Memorandwm ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Dirywiad Economaidd Rhyngwladol Presennol

**Ieuan Wyn Jones AC Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

### Y Dirywiad Economaidd

1. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd ati ar fyrder i gymryd camau pendant i helpu busnesau ac unigolion i ddod drwy'r dirywiad ei hun ac i fod yn barod i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd a ddaw i'w rhan wrth i'r economi wella.

2. Cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd Economaidd gyntaf ym mis Hydref 2008 ar y cyd â rhanddeiliaid megis Busnes Cymru, Cyngres Undebau Llafur Cymru ac eraill. Cynhaliwyd trafodaethau hynod adeiladol, a gwelwyd bod angen mynd i'r afael â saith maes allweddol. Nid yw pob un o'r meysydd allweddol hyn yn rhan o gylch gwaith yr Adran dros yr Economi a Thrafnidiaeth, felly, rydym wedi gweithio ar draws portffolios o fewn Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu cynigion a chamau gweithredu.

3. Yn yr ail Uwchgynhadledd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2008 a hefyd yn y drydedd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2008, aethom ati i nodi'n fanwl yr ystod eang o gamau ymyrryd yr oeddem yn eu cymryd mewn ymateb i'r materion a godwyd. Manylir ar y camau hynny yn y Papur Diweddaru ar gyfer y Drydedd Uwchgynhadledd Economaidd (atodiad 1), ac yn eu plith y mae'r camau a ganlyn:

### Seilwaith/Buddsoddiad Cyfalaf

4. Ar 2 Rhagfyr 2008, dyrannwyd cyfanswm o oddeutu £350 miliwn i'r gyfres gyntaf o brosiectau o dan y Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Strategol. Bydd y prosiectau hyn yn helpu i sicrhau gwelliannau mawr i wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Hefyd, bydd gwerth £23 miliwn o gyllid cyfalaf yn cael ei wario bellach yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol hon, ac yn unol â'r trafodaethau a gafwyd yn yr Uwchgynadleddau Economaidd, bwriedir canolbwyntio ar gynigion buddsoddi llafurddwys.

5. Ar 2 Rhagfyr hefyd, cyhoeddwyd manylion y set gyntaf o brosiectau sydd wedi cael cynnig Arian Cyfatebol a Dargedir. Yn ogystal â chynnig cymorth i brosiectau etifeddol o'r rhaglenni blaenorol, mae cyllid sy'n werth cyfanswm o £23 miliwn wedi'i gynnig i brosiectau newydd, gan gynnwys prosiectau i helpu pobl economaidd anweithgar i ddod o hyd i waith, a chymorth ar gyfer mentrau cymdeithasol. Bydd yr Arian Cyfatebol a Dargedir yn helpu i sicrhau cyllid o Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer prosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl ac i gymunedau ym mhob cwr o Gymru.

### Ardrethi Busnes

6. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno y bydd dau gam dros dro a fydd yn cael eu cymryd yn Lloegr ac a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn ei ddatganiad cyn y gyllideb, hefyd yn gymwys yma yng Nghymru.

### Tai

7. Yn y Datganiad am y Gyllideb Derfynol, a wnaed ar 2 Rhagfyr, cafwyd cyhoeddiad ynghylch rhaglen fawr i ddarparu 400+ o Gartrefi Fforddiadwy ar draws Cymru. O dan y prosiect cartrefi fforddiadwy, bydd Grant Tai Cymdeithasol ychwanegol yn cael ei roi i landlordiaid cymdeithasol er mwyn darparu rhagor o gartrefi fforddiadwy. Bydd y cynnig hwn yn fodd i gynnal swyddi adeiladu yr effeithiwyd arnynt gan y wasgfa gredyd. Bydd darparu Grant Tai Cymdeithasol yn ystod 2008/09 hefyd yn golygu y bydd modd mynd ati'n gynt i roi rhaglenni tai cymdeithasol ar waith.

### Effeithlonrwydd Ynni

8. Mae swm ychwanegol o £2 miliwn ar gael yn 2008/09 o gyllideb yr Adran dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar gyfer gwaith ar raglen Economi Carbon Isel Blaenau'r Cymoedd.

9. Mae'r Ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth Swyddi Gwyrdd, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2008, yn un o elfennau allweddol y Rhaglen Lywodraethu a amlinellir yn Cymru'n Un. Gall busnesau yng Nghymru arwain y farchnad ym maes technoleg a gwasanaethau gwyrdd, a bydd cyfleoedd newydd yn dod i'r amlwg wrth i ni symud at economi sy'n isel o ran carbon ac o ran gwastraff.

### Hyfforddiant Sgiliau

10. O ddechrau mis Ionawr ymlaen, mae'r rhaglen ProAct wedi bod yn rhoi cymorth ychwanegol ym maes hyfforddiant i fusnesau sy'n dioddef yn ystod y dirywiad economaidd. Mae'n ategu'r rhaglen ReAct, sy'n bodoli eisoes, drwy'n galluogi i roi cymorth i fusnesau a'u gweithwyr cyn bod angen cael gwared ar swyddi. Rydym yn darparu cymorth ariannol ychwanegol er mwyn hyfforddi gweithwyr, a hynny drwy ddethol, ac rydym hefyd wedi cyflwyno cam arloesol newydd lle byddwn yn rhoi cymorth gyda chostau cyflogau wrth i weithwyr gael eu hyfforddi.

11. Mae'r targed o ran nifer y cyflogwyr a fydd wedi llofnodi'r Adduned Cyflogwr Sgiliau Sylfaenol erbyn mis Mawrth 2010 wedi'i ddyblu,

o 500 i 1,000 o gyflogwyr. Mae'r ffordd o fynd i'r afael â diswyddiadau yn cael ei chryfhau hefyd drwy gydweithio agos rhwng Llywodraeth y Cynulliad, y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfaoedd Cymru.

12. Drwy gynnig rhagor o gymorth drwy'r Rhaglen Datblygu'r Gweithlu, bydd y gyfradd ymyrryd mewn perthynas â busnesau bach a chanolig yn codi o 50% i 70%, wedi'i hôl-ddyddio i 1 Hydref 2008, a bydd cynnydd o 50% yng nghapasiti'r rhaglen ReAct ar gyfer 2009/10.

### Caffael a Thaliadau

13. Bydd buddsoddiad ychwanegol yn cael ei wneud yn rhaglen cyfnewidcymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae Gwerth Cymru wedi'i gomisiynu i ystyried sut y gellid sicrhau manteision ychwanegol – yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol – drwy fynd ati'n gynt i gyflwyno arferion caffael cynaliadwy ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.

14. Mae ffigurau wedi'u cyhoeddi sy'n dangos bod Llywodraeth y Cynulliad fel sefydliad yn talu ei chyflenwyr ymhen 5.89 diwrnod ar gyfartaledd, a bod llai na phump y cant o'r taliadau'n cymryd mwy na 10 diwrnod.

### Cyllid

15. Yng ngoleuni'r pwysau presennol ar gydgyllido a'r gostyngiad yng ngwerth y bunt o'i chymharu â'r Ewro, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrthi'n trafod gyda'r Comisiwn Ewropeaidd i weld a fyddai modd cynyddu'r cyfraddau ymyrryd mewn perthynas â'r Rhaglenni Ewropeaidd.

16. Gwnaed cyhoeddiad yn y Drydedd Gynhadledd Economaidd ynghylch y prosiect Twf Busnes, sy'n werth £45 miliwn (£13 miliwn o dan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop). Bydd Twf Busnes yn helpu i gynnal ac i ddatblygu 6,000 o fusnesau bach a chanolig ar draws Cymru ac i greu oddeutu 6,000 o swyddi.

### Y Datblygiadau Diweddaraf

17. Ers yr Uwchgynhadledd Economaidd ddiwethaf ym mis Rhagfyr, mae gwaith wedi parhau i fynd rhagddo i ddatblygu ac i fireinio'r camau gweithredu y penderfynwyd arnynt. Ar 26 Ionawr 2009, cyhoeddwyd y bydd ProAct yn cael cyllid gwerth £48 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys £30 miliwn o Gyllid Cydgyfeirio o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ar gyfer y flwyddyn 2009-10 a'r cam peilot presennol.

18. Er mwyn cefnogi prentisiaethau yn ystod y dirywiad economaidd, bydd swm pellach o £20 miliwn ar gael, yn amodol ar gymorth o dan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, er mwyn creu pecyn newydd o fesurau i helpu i gynnal prentisiaethau ac i annog busnesau i'w cynnig o'r newydd.

19. Mae'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi bod yn werthfawr o ran cefnogi argymhellion a wnaed yn ystod yr Uwchgynadleddau Economaidd a gynhaliwyd yn ddiweddar. Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i'r modd yr eir ati i reoli'r Cronfeydd Strwythurol, ac mae hyn yn golygu ein bod wedi llwyddo i ymateb yn gyflym i'r heriau sy'n gysylltiedig â'r dirywiad economaidd byd-eang. Mae buddsoddiadau allweddol wedi cael eu blaenoriaethu a'u cyflwyno, gan gynnwys llawer o brosiectau sy'n cael eu trafod eisoes â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

### Cymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B)

20. Yn ogystal â'r mesurau newydd uchod, rydym yn gweithredu'n eang eisoes o ran rhoi cymorth i fusnesau, gan wneud hynny drwy'r rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B). Cafodd y model FS4B ei ddatblygu mewn ymateb i fusnesau, a chan ymgynghori â hwy, er mwyn lleihau dryswch yn y farchnad a'n galluogi i ddarparu gwasanaethau i fusnesau mewn modd mwy effeithlon. Mae'n gwneud hyn drwy sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael yn fwy hwylus i fusnesau sy'n bodoli eisoes ac i ddarpar fusnesau, a hynny drwy borth sy'n cynnwys un wefan, rhif ffôn cenedlaethol, a chysylltiad wyneb yn wyneb drwy rwydwaith o ganolfannau lleol.

21. Mae rheolwyr perthynas wedi'u neilltuo hefyd er mwyn helpu busnesau strategol bwysig i ddatblygu drwy gynnig pecyn cymorth sydd wedi'i deilwra'n benodol ar eu cyfer. Daethpwyd â'r cyllid a'r cymorth arbenigol sydd ar gael ynghyd er mwyn creu un Gronfa Fuddsoddi Sengl a fydd yn diwallu'r anghenion unigol sydd gan fusnesau.

22. At hynny, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o gyhoeddiadau, gan gynnwys 'Real Help for Jobs' a 'Real Help for Business' a chymorth ar gyfer y diwydiant modurol

### I gloi

23. Rydym yn cadw llygad barcud ar y sefyllfa economaidd ac yn gweithio i sicrhau bod busnesau'n manteisio ar gamau sydd wedi'u cyflwyno ar lefel y DU, yn ogystal â chamau sydd wedi'u cyflwyno yng Nghymru. Rydym yn mynd ati'n gyson i ystyried opsiynau newydd o ran polisi ac o ran darparu, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ôl y bedwaredd Uwchgynhadledd a fydd yn cael ei chynnal ar 6 Chwefror 2009. (Atodiad 2)